WHC (2016) 008

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 03.02.2016

**STATWS:** **GWEITHREDU**

**CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl: MATERION IECHYD AC ANABLEDDAU DYSGU**

**Dyddiad dod i ben / Adolygiad:** 03.02.2016

**I'w weithredu gan:**
Cadeiryddion
Prif Weithredwyr
Ysgrifenyddion Bwrdd
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Nyrsio

**I'w weithredu gan Lywodraeth Cymru (neu er gwybodaeth):**
Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Polisi a Phroffesiwn
Tîm Gweithredu AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Tîm Digidol AIGC

**Camau i'w cymryd erbyn:** Gweler paragraff 9

**Anfonwyd gan:** Jean White – y Prif Swyddog Nyrsio

**Enw(au) Cyswllt yn Llywodraeth Cymru:**
Jean White: y Prif Swyddog Nyrsio - y Gyfarwyddiaeth Nyrsio – jean.white@wales.gsi.gov.uk – 02920 825517
Sue Beacock: y Gyfarwyddiaeth Nyrsio – sue.beacock@wales.gsi.gov.uk – 02920 370369

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi crynodeb o ddyletswyddau byrddau iechyd ynghylch bodloni anghenion gofal iechyd cleifion ag anableddau dysgu, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Gweithredu a defnyddio'r bwndel gofal Gwella Gofal i Gleifion ag Anableddau Dysgu mewn Ysbytai Cyffredinol.

- Cymryd rhan yn Archwiliad Iechyd Blynyddol Cymru

2. Cafodd y bwndel gofal Gwella Gofal i Gleifion ag Anabledd Dysgu mewn Ysbytai Cyffredinol ei lansio ym mis Ionawr 2014, a chafodd y modd y'i gweithredwyd ar draws GIG Cymru ei adolygu yn 2015. Mae'r adolygiad a'r dystiolaeth ddilynol yn awgrymu bod nifer y byrddau iechyd sy'n defnyddio'r bwndel gofal yn amrywio ar draws Cymru. Er bod y byrddau iechyd i gyd wedi cyfrannu at ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer y pecyn cymorth, nid yw pob un ohonynt wedi eu rhoi ar waith yn llawn er bod rhai ohonynt wedi gwneud cynnydd sylweddol yn hyn o beth.

3. Cafodd Archwiliad Iechyd Blynyddol Cymru i bobl ag anabledd dysgu ei gyflwyno yn 2007, ond mae nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio'n isel ac mae ansawdd ei effaith yn amrywio.

4. Mae'r ddau fater yn gydgysylltiedig gan eu bod yn cynnwys mynediad i ofal iechyd i'r grŵp hwn o gleifion sy'n agored i niwed.

5. Mae'r ddau bolisi'n cael eu gwella'n fawr drwy ddefnyddio gwasanaethau cyswllt acíwt, a arweinir gan nyrsys anabledd dysgu. Serch hynny, nid yw pob bwrdd iechyd yn darparu'r gwasanaethau hyn. Felly, gofynnir i fyrddau iechyd ystyried yn ofalus ddatblygu gwasanaethau cyswllt ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, os nad ydynt ar gael eisoes.

6. Mae gofal iechyd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu'n cael ei ystyried yn aml yn rhan o wasanaethau iechyd ar gyfer anableddau dysgu. Yn amlwg, nid yw hyn yn wir gan fod y pecyn cymorth yn gymwys i ysbytai cyffredinol ac mae'r archwiliad iechyd blynyddol yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth gofal sylfaenol. Gofynnir i fyrddau iechyd nodi swyddog arweiniol i oruchwylio materion iechyd ar gyfer cleifion ag anabledd dysgu. Argymhellir mai rhywun sy'n gweithio ym maes gofal iechyd mewn ysbytai cyffredinol ddylai arwain y dasg hon a hynny gyda chymorth y gwasanaethau gofal iechyd lleol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

7. Mae grŵp gofal iechyd i bobl ag anableddau dysgu'n cael ei sefydlu i gefnogi gweithredu strategaethau gofal iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gan ddechrau gyda'r pecyn cymorth a'r archwiliad iechyd blynyddol. Dylai pob bwrdd iechyd sicrhau bod ei swyddog arweiniol yn aelod o'r grŵp hwn.

8. Nod y grŵp gofal iechyd i bobl ag anabledd dysgu fydd cyflwyno canllawiau arferion da ar gyfer defnyddio pecynnau cymorth, cefnogi datblygu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ag anabledd dysgu a chynnig cymorth i bob bwrdd iechyd ar gyfer materion megis mynediad i hyfforddiant ac addysg briodol i staff. Bydd y gwaith hwn yn cael ei fonitro bob chwe mis. Bydd y grŵp yn cael cymorth gan MENCAP Cymru.

9. Gofynnaf ichi enwebu swyddog arweiniol i fod yn aelod o'r grŵp gofal iechyd i bobl ag anabledd dysgu. Dylid anfon yr enwebiad at Sue Beacock yn y cyfeiriad uchod erbyn 20 Chwefror 2016. Bwriedir cynnal digwyddiad hyfforddi ar 16 Mawrth 2016 ar gyfer aelodau'r grŵp. Gofynnaf ichi ystyried y canlynol wrth enwebu:
   a. Ni ddylai'r sawl rydych yn ei enwebu fod yn rhywun o'r gwasanaeth neu gyfarwyddiaeth anableddau dysgu
   b. Dylai'r sawl rydych yn ei enwebu allu creu cysylltiadau gyda'r maes gofal sylfaenol.

10. Bydd y gwaith o gydymffurfio â'r ddau bolisi a nodir yn adran 1 yn cael ei fonitro bob blwyddyn.